# THOMAS, THOMAS MORGAN (1828 - 1884), cenhadwr



**Enw:** Thomas Morgan Thomas
**Dyddiad geni:** 1828
**Dyddiad marw:** 1884
**Priod:** Caroline Hutchinson Thomas (née Elliott)
**Priod:** Anne Thomas (née Morgan)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cenhadwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Nansi Ceridwen Jones

Ganwyd yn Llanharan, Sir Forgannwg, 13 Mawrth 1828. Aeth i Goleg Aberhonddu yn 1854 ac fe'i ordeiniwyd i'r maes cenhadol yng Nghwmbach, Aberdâr, 11 Mai 1858. Priododd Anne Morgan, merch Jonah Morgan, gweinidog yr Annibynwyr yng Nghwmbach. Ym Mehefin 1858 hwyliodd y ddau i Matabele-land, De Affrica. Bu ei wraig farw yn 1862 ac yn 1864 priododd yntau eilwaith â Caroline Hutchinson Elliott, merch William Elliott, cenhadwr yn Ne Affrica. Yn Ebrill 1871 dychwelodd i Gymru. Cododd annealltwriaeth rhyngddo ef a Chymdeithas Genhadol Llundain a diswyddwyd ef Hydref 1871. Cyflwynwyd tysteb o tua mil o bunnoedd iddo oddi wrth eglwysi Cymru yn 1874, a dychwelodd i Matabele-land ar ei gyfrifoldeb ei hun. Cyhoeddodd lyfr emynau ac amryw lyfrau elfennol yn iaith y brodorion. Cyhoeddodd hefyd lyfr yn Gymraeg ac yn Saesneg dan yr enw *Un Mlynedd ar Ddeg yng Nghanolbarth Deheuol Affrica* (Llundain, 1873). Bu farw 8 Ionawr 1884.

## Awdur

**Nansi Ceridwen Jones**

## Ffynonellau


H. Blackwell, NLW MS 9274A: A Dictionary of Welsh Biography (380)

*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908), 378

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898), 1898, 480

G. Penar Griffith, *Cenhadon Cymreig*, 78-85

*Y Diwygiwr*, 1873, 253-6; 1874, 196

*Tywysydd y Plant*, 1873, 86-90

*Y Tyst a'r Dydd*, 25 Ebrill 1884

James Sibree,*A Register of Missionaries, Deputations etc., from 1796 to 1885* (1886), 71

## Gweithiau

Thomas Morgan Thomas, *Eleven years in central South Africa: A journey into the interior - Sketch of recently discovered diamond and gold fields - Umzilikazi, his country and people - A brief history of the Zambesi Missions* (London 1873?)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 39324802

Wikidata: Q20804796

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu